



## Pecyn Swydd

### Cynorthwy-ydd Cyfathrebiadau

Diolch ichi am eich ymholiad ynghylch y swydd uchod.

Mae'r Pecyn Swydd yn cynnwys:

- Ffurflen Gais
- Swydd Ddisgrifiad
- Manyleb Person
- Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal.

Mae'n bwysig ichi ddarllen gofynion y Fanyleb Person a bod y wybodaeth yr ydych yn ei gyflwyno yn eich cais yn disgrifio sut yr ydych yn ateb y gofynion hyn - bydd y broses tynnu rhestr fer yn defnyddio criteria'r Fanyleb Person i benderfynu pwy i'w gwahodd am gyfweiliad.

Ble bynnag y bo modd, dylech ddefnyddio **enghreiffiau** i dystio i'r profiad a'r sgiliau sydd gennych a chofiwch ddweud wrthym sut y bydd eich rhinweddau personol yn golygu eich bod yn berson y byddwn ei eisiau ar ein tîm.

Dylid dychwelyd y ffurflen gais a'r ffurflen cyfle cyfartal, wedi eu cwblhau, at:

[swyddi@chwaraecymru.org.uk](mailto:swyddi@chwaraecymru.org.uk)

Dyddiad cau: 9am - 18 Chwefror 2019

Cynhelir y cyfweiliadau: 20 Chwefror 2019

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

I drafod y swydd hon ymhellach, ffoniwch 029 20486050

## Amdanom Ni

Chwarae Cymru yw'r elusen genedlaethol dros chwarae plant yng Nghymru.

Rydym yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch angen a hawl plant a phobl ifanc i chwarae ac i hyrwyddo arfer da ar bob lefel o'r broses wneud penderfyniadau ac ym mhobman ble y gall plant chwarae. Rydym yn cynnig cyngor ac arweiniad i gefnogi pawb sydd â diddordeb mewn neu gyfrifoldeb dros ddarparu ar gyfer chwarae plant, fel y bydd Cymru un diwrnod yn wlad ble y byddwn yn cydnabod ac yn darparu'n dda ar gyfer anghenion chwarae pob plentyn.

## Gweledigaeth Chwarae Cymru

Dyfodol ble caiff chwarae ei barchu am ei bwysigrwydd allweddol i blentyndod.

## Cennad

Ymgyrchu dros Gymru chwarae-gyfeillgar a phledio achos hawl pob plentyn i chwarae.

## Nodau

- **Polisi:** *i weithio gydag unigolion, sefydliadau a rhwydweithiau i hysbysu datblygu polisi a materion sy'n ymwneud â chwarae plant yng Nghymru*
- **Gwasanaeth Cyfathrebu:** *i hyrwyddo gwerth chwarae plant yng Nghymru trwy ddarparu gwybodaeth gyfredol, amserol i'n rhanddeiliaid*
- **Cyngor a Chefnogaeth:** *i ddarparu gwybodaeth arbenigol ar bob mater sy'n ymwneud â, ac sy'n effeithio ar, chwarae plant*
- **Datblygu'r Gweithlu:** *i gyfrannu at ddatblygiad proffesiynol y gweithlu chwarae a gwaith chwarae yng Nghymru*

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â'n gwefan: [www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)



## Disgrifiad Swydd

Teitl y swydd: Cynorthwy-ydd Cyfathrebiadau

Prif faes cyfrifoldeb: I gynorthwyo'r Rheolwraig Cyfathrebiadau i hyrwyddo gwerth chwarae plant yng Nghymru trwy ddarparu gwybodaeth gyfoes ac amserol.

### Prif Dasgau

Cynorthwyo y Rheolwraig Cyfathrebiadau:

- diweddarau gwefan Chwarae Cymru
- cynhyrchu a rhannu cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
- ysgrifennu a dosbarthu erthyglau a datganiadau i'r wasg
- ymchwilio, ysgrifennu a dosbarthu cyhoeddiadau a deunyddiau eraill Chwarae Cymru
- paratoi a staffio arddangosfeydd Chwarae Cymru mewn digwyddiadau
- marchnata cyhoeddiadau, gwasanaethau a digwyddiadau Chwarae Cymru
- cydlynu gydag argraffwyr a chyfieithwyr
- ymdrin ag ymholiadau ffôn ac e-bost
- cynnal y llyfrgell mewn modd trefnus, ymateb i ymholiadau a chynorthwyo ymwelwyr fel bo angen
- cynllunio a threfnu cynadleddau, seminarau a digwyddiadau eraill Chwarae Cymru
- dyletswyddau gweinyddol cyffredinol
- cynnal cronfa ddata Chwarae Cymru

### Manyleb Person

#### Hanfodol

- Sgiliau llafar ac ysgrifenedig creadigol rhagorol yn Gymraeg a Saesneg
- Dealltwriaeth weithio ragorol o gyfathrebiadau digidol effeithiol
- Sylw craff ar fanylion
- Gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol yn hanfodol
- Chwaraewr tîm effeithiol
- Gallu i ymchwilio, casglu a phrosesu gwybodaeth
- Y gallu i weithio'n effeithiol dan bwysau ac i derfynau amser tynn
- Hyblygrwydd a'r gallu i amldasgio
- Gallu i drefnu a thrin tasgau cyffredinol arferol
- Gallu gweithio heb oruchwyliaeth

## Dymunol

- Sgiliau neu dalent dylunio
- Profiad o gynhyrchu clipiau ar gyfer y cyfryngau
- Profiad o Adobe InDesign
- Diddordeb mewn chwarae plant a materion plant yn gyffredinol

## Telerau ac Amodau

<b>Lleoliad</b>	Lleolir ym Mae Caerdydd
<b>Cyflog</b>	£18,000 - £20,000 y flwyddyn, yn ddibynnol ar brofiad Graddfa i'w phenderfynu wedi cyfnod prawf
<b>Oriau</b>	37 awr yr wythnos – ond disgwylir weithiau ichi weithio y tu allan i oriau swyddfa
<b>Gwyliau</b>	Hawl blynyddol: 25 diwrnod a gwyliau banc a 4 diwrnod statudol ychwanegol; cyfrifir yn flynyddol o ddyddiad cychwyn y gyflogaeth; 30 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth parhaus (yn y 6 <sup>ed</sup> blwyddyn), 35 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth parhaus (yn yr 11 <sup>ed</sup> blwyddyn). Cyfnod prawf o chwe mis gyda goruchwyliaeth reolaidd
<b>Cyfnod Prawf a Goruchwyliaeth Cyfnod Rhybudd</b>	Bydd Chwarae Cymru yn rhoi o leiaf bedair wythnos o rybudd yn ysgrifenedig i bob aelod o staff ac o leiaf wyth wythnos o rybudd yn ysgrifenedig i'r rheini sydd wedi gweithio am dros ddwy flynedd a llai na naw mlynedd. Wedi hynny, bydd Chwarae Cymru'n rhoi naw wythnos o rybudd wedi naw mlynedd o wasanaeth; deg wythnos o rybudd wedi deng mlynedd o wasanaeth; un ar ddeg wythnos o rybudd wedi un ar ddeg mlynedd o wasanaeth; a deuddeg wythnos o rybudd wedi deuddeng mlynedd neu fwy o wasanaeth.
<b>Cynllun Iechyd Pensiwn</b>	Cynllun Essentials Plus trwy gwmni Healthshield Cyfle i ymuno â LGPS, ond os oes gan y cyflogai gynllun pensiwn personol y mae'n cyfrannu ato eisoes, bydd Chwarae Cymru yn gwneud cyfraniad blynyddol iddo hefyd sydd gyfwerth â 10% o'ch cyflog blynyddol.
<b>Dysg a Datblygiad</b>	Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn ei le ar gyfer pob aelod o staff Chwarae Cymru
<b>Swyddfa</b>	Swyddfa ar y 4 <sup>ydd</sup> llawr: Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd.